Senedd Cymru
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth**

Cofnodion
Dydd Llun 13 Mehefin, 10.30am - hanner dydd
Cyfarfod ar y we

**Yn bresennol:** Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Willow Holloway, Kathryn Williams, Aimee Grant, Amy RL Hughes, Bethan Edwards, Bethan Gilson, Bill Fawcett, Carys Holt, Catherine Edevane, Catherine Vaughan, Cyng. Jane Tremlett, Dave Evans, David Vittle Thomas, Steffan Davies, Debbie Shaffer, Debbie Jackson, Debra Mitchell, Ryland Doyle, Elaine Jennings, Frances Rees, Rebecca Gooch, Eleri Griffiths, Rachel Hazelwood, Heather Lucas, Helen Bucke, Keith Ingram, Janet Williams, Jo Taylor, John Price, Jolene Martin, Kieran Fraser, Kirsty Jones, Lindsay Brewis, Michael Imperato, Michael Williams, Monique Craine, Nicole Mitchell-Meredith, Paula Shoosmith, Rebecca Lydon, Dan Rose, Samantha Williams, Selina Johnson, Sheladevi Nair, Shah Shumon, Sian Owen, Siôn Edwards, Sioned Thomas, Stephane Gidon, Suzanne Rinvolucri, Rachel Brown, Einir Price, Heledd Roberts a Chris Haines

**Ymddiheuriadau:** Emma Howick, Wendy Thomas, Ruth Rabet, Sarah Broadhurst, Samantha Inglis, Karen Thompson a Caroline Wright

**1. Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd Mark Isherwood AS bawb i gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Awtistiaeth a chyflwynodd y ddau siaradwr.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Llun 7 Mawrth 2022 ar ôl iddynt gael eu cynnig a'u heilio fel adlewyrchiad cywir gan Willow Holloway a Monique Craine, yn y drefn honno.

**3. Prosiect Myfyrio ar y Prosiect Grymuso Menywod Awtistig (AWE)**

Myfyriodd Willow Holloway – cyfarwyddwr a chadeirydd bwrdd gweithredol Autistic UK yn ogystal â chadeirydd bwrdd cyfarwyddwyr Anabledd Cymru – ar y prosiect Grymuso Menywod Awtistig (AWE), a lansiodd yn swyddogol saith mlynedd yn ôl ar 13 Mehefin, 2015. Esboniodd fod prosiect AWE wedi cael ei lansio i rymuso menywod a merched awtistig drwy ddatblygu rhwydwaith a darparu cefnogaeth gan gymheiriaid. Dywedodd wrth y rhai a oedd yn bresennol fod y prosiect wedi ei sefydlu i godi ymwybyddiaeth yn y lle cyntaf ond ei fod wedi dod yn gyfrwng i ymgyrchu dros gydnabod a derbyn. Amlinellodd Willow ei thaith bersonol ei hun o fod bron yn gaeth i'r tŷ oherwydd gor-bryder a gorlwytho synhwyraidd i fod yn 'darw dur melfed' ac yn arbenigwr drwy brofiad. Esboniodd ei bod yn dal nifer o rolau cynrychioliadol gan gynnwys ar grŵp

cynghori awtistiaeth Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ar fwrdd strategaeth Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru. Galwodd Willow am well cydnabyddiaeth o'r ffordd wahanol mae awtistiaeth yn amlygu ei hun mewn menywod a merched. Soniodd am bwysigrwydd gwella llwybrau diagnostig, cymorth cyn ac ar ôl diagnosis i helpu i ddatblygu hunaniaeth iach, a chymorth i oresgyn rhwystrau cymdeithasol.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn unfrydol yn eu canmoliaeth o waith rhagorol Willow dros nifer o flynyddoedd, gyda Catherine Vaughan yn ei disgrifio fel llysgennad gwych dros y gymuned niwro-amrywiol a menywod awtistig. Cytunodd Frances Rees, Bethan Gilson a Kirsty Jones, gan ddweud bod y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn ddiolchgar iawn i Willow am ei holl waith caled. Cynigiodd Janet Williams, Helen Bucke, Bill Fawcett a Suzanne Rinvolucri eu help gyda'r prosiect.

**4. Yr ymchwil diweddaraf am brofiadau menywod awtistig**

Amlinellodd Kat Williams, cyfarwyddwr anweithredol ac arweinydd ym maes ymchwil yn Autistic UK, brosiectau ymchwil gan gynnwys adolygiad systematig o brofiadau menywod awtistig o fwydo babanod – prosiect dan arweiniad Aimee Grant ym Mhrifysgol Abertawe. Amlinellodd hefyd adolygiad o basbortau iechyd awtistiaeth – dan arweiniad Dr Grant unwaith eto – ac astudiaeth o ddewis iaith yn y gymuned ar gyfer nifer o anableddau datblygiadol gan gynnwys awtistiaeth, ADHD a chlefyd Tourette. Mae Kat, myfyrwraig ôl-radd ym Mhrifysgol Caerdydd, hefyd yn ymchwilio i fynediad anghyfartal oedolion awtistig at ofal iechyd. Mae ei phrosiect meistr yn astudiaeth ansoddol o brofiadau oedolion awtistig o deleiechyd. Bydd yn dilyn hyn gyda PhD yn dechrau ym mis Hydref ar rôl cyfathrebu o ran mynediad at ofal iechyd i oedolion awtistig. Mynegodd bryderon am 'gagendor enfawr' yn y sylfaen ymchwil, a natur groestoriadol anghydraddoldebau sy'n wynebu menywod awtistig. Tynnodd Kat sylw at ddealltwriaeth wael o anghenion pobl awtistig, gan gynnwys adrodd am boen, gwahaniaethau synhwyraidd a chyfathrebu. Daeth i'r casgliad bod angen i brofiadau iechyd menywod awtistig fod yn flaenoriaeth ymchwil, gydag astudiaethau'n cael eu harwain gan bobl awtistig ac yn cael eu hariannu'n briodol.

Rhoddodd Jolene Martin ei phrofiad personol, gan ddweud nad oedd bwydo ar y fron yn gweithio iddi ac nad oedd yn gwybod ei bod yn awtistig ar y pryd. Dywedodd ei bod yn teimlo fod y system gofal iechyd yn achosi trawma iddi. Dywedodd Janet Williams ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei hanwybyddu yn yr ysbyty, a'i phrofiad cyntaf o fwydo ar y fron oedd bod gormod o bobl yn dweud wrthi nad oedd yn ei wneud yn iawn – heb ystyried sut roedden nhw'n gwneud iddi deimlo. Dywedodd Eleri Griffiths wrth y cyfarfod ei bod wedi treulio pedwar diwrnod ar ward mamolaeth gyda'i merch yn ddiweddar, gan ddweud bod yr amgylchedd yn anaddas i unrhyw un sydd â gwahaniaethau yn eu canfyddiadau synhwyraidd.

Dywedodd Aimee Grant fod ymchwil ar brofiadau pobl awtistig o feichiogrwydd yn dangos bod gwaethygiad yn eu hiechyd meddwl yn gyffredin – ac roedd yn gyffredin i fenywod beidio gwybod eu bod yn awtistig ar y pryd. Dywedodd Dr Grant fod prinder bydwragedd yn y DU yn golygu nad oedd digon o gymorth ar gyfer bwydo ar y fron. Dywedodd Frances Rees y byddai'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn hyrwyddo'r ymchwil ar ei wefan a'i sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ledled Cymru. Pan ofynnwyd iddi sut gall Cymru fynd i'r afael ag agweddau negyddol tuag at fenywod awtistig, soniodd Kat Williams am bwysigrwydd datblygu'r sylfaen dystiolaeth gynyddol a meithrin newid yn y system.

**5. Datblygiadau ar drin menywod a merched awtistig yn deg**

Rhoddodd Willow Holloway y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi. Wrth edrych tua'r dyfodol, tynnodd sylw at ddatganiad ansawdd ar gyfer iechyd menywod a

merched, sy'n cael ei ddatblygu gan yr elusen Triniaeth Deg i Fenywod Cymru. Dywedodd wrth y cyfarfod y byddai dau adroddiad yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir, adroddiad prosiect AWE ac adroddiad dan arweiniad defnyddwyr, o'r enw *Break the Bias*. Wrth gloi, amlinellodd Willow sut y gall pobl gymryd rhan yn Autistic UK drwy ddod yn noddwr, ymuno â'r rhestr bostio, mynychu digwyddiadau neu gyfrannu.

Mynegodd Mark Isherwood bryderon am deuluoedd yn ei ranbarth, a oedd yn aml yn famau, sy'n wynebu argyfwng ar ôl cael eu trin fel eu bod yn flinderus gan gyrff cyhoeddus sy'n beio rhieni, yn gwrthod rhoi asesiadau ac yn bygwth dechrau ymholiadau Adran 47. Dywedodd MS Gogledd Cymru wrth y cyfarfod fod gwasanaethau'n aml yn cael eu gwrthod i rieni pan allai mân addasiadau wneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau. Dywedodd Willow fod gwaith gwych yn cael ei wneud yn genedlaethol ond roedd yn cydnabod nad yw hyn, yn rhy aml, yn treiddio drwodd i lefel leol.

Disgrifiodd Jolene Martin yr anawsterau a gafodd wrth gael diagnosis. Holodd pa mor briodol oedd y gwasanaethau 'porthgadw' i reoli'r galw, gan gyfeirio at yr enghraifft o ffurflen roedd yn rhaid iddi ei llenwi wrth gael trafferth ymdopi gyda theimlo'n annigonol.

Tynnodd Frances Rees sylw at Gymuned Ymarfer arfaethedig y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ar gyfer menywod a merched awtistig ar 29 Mehefin.

**6. Unrhyw fater arall/ cau pen y mwdwl**

Rhoddodd Chris Haines ddiweddariad byr ar eitem ar agenda cyfarfod mis Mawrth ynghylch adroddiad rhagarweiniol ar addysg disgyblion awtistig. Dywedodd wrth y cyfarfod fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi ysgrifennu at y consortia addysg rhanbarthol, cyfarwyddwyr addysg, Estyn a'r Gweinidog Addysg i dynnu sylw at yr adroddiad. Dywedodd y byddai'n dosbarthu ymatebion gan y gweinidog a Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi. Ychwanegodd awdur yr adroddiad, Steffan Davies, ei fod wedi cael cyswllt cadarnhaol ag Estyn ynghylch ei waith. Tynnwyd sylw at hyn hefyd yn ystod dadl fer yn y Senedd dan arweiniad Hefin David, AS Caerffili.

Diolchodd Mark Isherwood i bawb am ddod i'r cyfarfod. Dywedodd wrth y rhai a oedd yn bresennol y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 19 Medi 2022 rhwng 10.30am a hanner dydd. Ychwanegodd Chris Haines ei fod yn gobeithio cynnal y cyfarfod nesaf yng Ngogledd Cymru a bydd cyfranogwyr yn gallu ymuno wyneb yn wyneb neu ar-lein. Awgrymodd y rhai a oedd yn bresennol rai lleoliadau posibl.